***Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 Rhan 1 – Adran 6***

***Y Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau***

***Adroddiad 2025***

**Cyngor Sir y Fflint**

## Cyflwyniad a Chyd-destun

Mae Cyngor Sir y Fflint yn awdurdod lleol yng ngogledd-ddwyrain Cymru. Mae Sir y Fflint wedi ei lleoli rhwng y siroedd gwledig i'r gorllewin ac ardaloedd mwy datblygedig Swydd Gaer a Glannau Mersi, mae'r defnydd o dir yn Sir y Fflint yn amrywio o ddatblygiad diwydiannol dwys ar hyd aber Afon Dyfrdwy i ardaloedd gwyllt a phellennig ym Mryniau Clwyd. Dros y degawdau mae Sir y Fflint wedi mynd drwy drawsnewid sylweddol. Mae effaith datblygiadau ym maes amaeth, tai, diwydiant ac echdynnu mwynau yn sylweddol, ac eto mae yn y sir lawer o ardaloedd – trefol a gwledig – sydd o bwysigrwydd i fywyd gwyllt. Mae gan Sir y Fflint nifer uchel o ddynodiadau cadwraeth natur rhyngwladol, cenedlaethol a lleol. Mae cynefinoedd morfa heli, twyni tywod a gwastadeddau llaid Aber Afon Dyfrdwy nid yn unig yn bwysig ynddynt eu hunain, ond maent yn gartref i boblogaethau o adar hela ac adar hirgoes sy'n bwysig yn rhyngwladol ac maent wedi eu dynodi yn Ardal Gwarchodaeth Arbennig, Ardal Cadwraeth Arbennig a safle gwlyptir RAMSAR o bwysigrwydd rhyngwladol.

Y Cyngor a'i bartneriaid sector cyhoeddus lleol sy'n gosod y blaenoriaethau ar gyfer Sir y Fflint fel sir. Yr ydym yn cydweithio fel Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ac yn cyfuno ein hadnoddau er budd Sir y Fflint.

Lluniwyd cynllun Dyletswydd Bioamrywiaeth Cyngor Sir y Fflint, 'Cefnogi Natur yn Sir y Fflint', yn ymateb i'r ddyletswydd bioamrywiaeth a gwytnwch ecosystemau uwch o dan Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Cyhoeddus geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth cyn belled â bod hynny'n cyd-fynd ag arfer eu swyddogaethau yn briodol, ac wrth wneud hynny mae'n rhaid hybu gwytnwch ecosystemau.

Mae'n rhaid i awdurdod cyhoeddus, wrth gydymffurfio â dyletswydd Adran 6, ystyried y canlynol:

- Rhestr Adran 7 o gynefinoedd a rhywogaethau sydd o bwysigrwydd mawr i Gymru
- Adroddiad Sefyllfa Natur Cymru a gyhoeddir gan Gyfoeth Naturiol Cymru
- Unrhyw ddatganiad ardal sy'n cynnwys y cyfan neu ran o'r ardal lle mae'r awdurdod yn ymarfer ei swyddogaethau unwaith mae'r rhain wedi eu llunio.

Mae yna gysylltiadau cryf rhwng Deddf yr Amgylchedd a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Bydd cydymffurfio â dyletswydd Adran 6 yn cynorthwyo awdurdodau cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i wneud y cyfraniad mwyaf posibl tuag at y nodau lles.

Mae 'Cefnogi Natur yn Sir y Fflint', ein cynllun bioamrywiaeth, yn amlinellu sut yr ydym, fel sefydliad, yn gweithredu i fynd i'r afael â'n dyletswydd bioamrywiaeth. Mae 'Cefnogi Natur yn Sir y Fflint' yn gynllun annibynnol sy'n cysylltu â chamau gweithredu yng Nghynllun y Cyngor, y Strategaeth Newid Hinsawdd, y Cynllun Coed a Choetiroedd Trefol, a'r Cynllun Lles. Amlinellir ymrwymiad y Cyngor i wneud cynnydd parthed y cynllun bioamrywiaeth drwy gydol y dogfennau hyn. Bydd cyflawni'r cynllun hefyd yn gymorth ar gyfer cyflawni allbynnau ledled y meysydd hyn. Mae'r Swyddog Bioamrywiaeth yn monitro perfformiad o ran y cynllun, ac adroddir am y perfformiad drwy InPhase i uwch reolwyr, Bwrdd y Rhaglen, yn ogystal ag i Gabinet y Cyngor a'r Pwyllgor Craffu.

Mae'r holl gamau gweithredu yn y cynllun yn unol â'r egwyddorion datblygu cynaliadwy, sy'n cael eu hadnabod hefyd fel y "5 ffordd o weithio" a amlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Gellir mynd i'r afael â'r holl brif fygythiadau i natur gan gynnwys newid yn yr hinsawdd, gorddefnyddio adnoddau, colli cynefinoedd, a rhywogaethau goresgynnol, drwy fyw yn fwy cynaliadwy – dyma pam y dylai gweithredu dros fioamrywiaeth a lles cenedlaethau'r dyfodol fynd law yn llaw. Mae 'Cynllun Lles Sir y Fflint a Wrecsam, 2023-2028' yn nodi'r argyfwng natur a newid hinsawdd fel problem ddiffiniol ein hoes. Ac mae'n nodi bod "gennym gyfle go iawn i gydweithio er mwyn ymgysylltu â'n hamgylchedd naturiol a

datblygu canlyniadau iechyd cadarnhaol, gan gynnwys gwell iechyd corfforol a meddyliol a llai o risg o afiechyd cardiofasgwlaidd a chyflyrau cronig eraill".

Mae Tîm Bioamrywiaeth Sir y Fflint yn cydweithio â Chonwy, Sir Ddinbych a Wrecsam a Swyddog Prosiect y Bartneriaeth Natur Leol i gefnogi'r Bartneriaeth Natur Leol (Bionet). Mae'r bartneriaeth hon yn gweithio'n agos â mentrau bioamrywiaeth cenedlaethol a pholisïau rhanbarthol, gan gynnwys Datganiadau Ardal Cyfoeth Naturiol Cymru.

Fel awdurdodau lleol eraill, mae Cyngor Sir y Fflint o dan bwysau ariannol estynedig a pharhaus. Mae'n hanfodol edrych ar fentrau amgylcheddol mewn ffordd gyfannol er mwyn y buddiannau lluosog y gallant eu darparu a gwneud y mwyaf ohonynt er mwyn gwella lles ledled y sir a chyfrannu lle bynnag bosibl tuag at wytnwch ariannol.

## Uchafbwyntiau, Canlyniadau Allweddol a Phroblemau

## Uchafbwyntiau

- **Mae ein 20 cam gweithredu dros natur wedi eu cynnwys mewn 6 amcan. Nodwyd bod "Rhywfaint o gynnydd' wedi ei wneud ym 55% o'r 20 o gamau gweithredu yn y cyfnod adrodd hwn, gwnaed "Cynnydd da" mewn 45% a chafwyd "Dim cynnydd" mewn 0% ohonynt; mae hyn yn cymharu'n ffafriol â chyfnod adrodd 2019-2022, lle cafwyd "Cynnydd da' yn 35% o'r camau gweithredu.**

Mae'r **cynnydd yng ngraddfa a chwmpas ein newidiadau o ran rheoli ystadau** wedi bod yn uchafbwynt allweddol ers 2022. Yr ydym wedi rhoi'r trefniadau rheoli iawn ar waith ar gyfer nifer o'r lleiniau hirsefydlog sydd gennym sy'n llawn blodau amrywiol. Yr ydym wedi creu safleoedd blodau gwylltion newydd drwy hau yn bennaf ac wedi cynyddu'r ardaloedd lle torrir y glaswellt yn llai aml. Cychwynnwyd y prosiect yn wreiddiol yn 2019 drwy ymgysylltiad uniongyrchol rhwng aelodau a'r Gwasanaethau Stryd, ac mae wedi tyfu'n llwyddiannus o ganlyniad i'r ymrwymiad lefel uchel hwn, cydweithio cadarn rhwng staff y Gwasanaethau Stryd / Bioamrywiaeth, a chyfathrebu rheolaidd ac effeithiol ar draws adrannau. Mae'r prosiect bellach yn defnyddio proses strwythuredig a thrylwyr ar gyfer creu safleoedd, monitro'r holl safleoedd yn flynyddol a rhaglen ymgysylltu gysylltiedig. Ers 2022 yr ydym wedi cynyddu'n sylweddol ein hystad a reolir ar gyfer amrywiaeth o flodau gwylltion er budd natur leol a'n preswylwyr. Mae offer rheoli mwy a chydweithio effeithiol ar draws adrannau wedi bod o gymorth wrth ehangu'r maes gwaith pwysig hwn.

**Gweithio ar draws adrannau:** Ers 2022 yr ydym wedi gweithio gyda nifer o adrannau eraill y Cyngor. Yr ydym wedi meithrin cysylltiadau da ar draws nifer o adrannau'r Cyngor. Mae hyn yn galluogi ac yn annog cydweithio rhagweithiol a chadarnhaol. Os parheir i ddarparu staff ar gyfer cynyddu bioamrywiaeth bydd y capasiti a'r adnoddau gennym i barhau i weithio ar draws adrannau, yn darparu cyngor, cefnogaeth ariannol a chefnogaeth staffio i alluogi'r budd mwyaf posibl ar gyfer natur a phobl.

**Integreiddio'n Barhaus â'r Strategaeth Newid Hinsawdd:** Mae timau bioamrywiaeth a'r hinsawdd yn dimau bach yn y Cyngor gyda meysydd gwaith eang. Mae integreiddio blaenoriaethau bioamrywiaeth yn sylweddol yn y strategaeth newid hinsawdd yn hanfodol, ac mae wedi bod o gymorth i yrru camau gweithredu yn eu blaenau a chynorthwyo i dynnu sylw at y camau gweithredu mewnol allweddol sydd eu hangen i gynnal bioamrywiaeth. Mae gwaith y prosiect defnydd tir gyda staff yr hinsawdd a staff prisio ac ystadau yn arbennig o berthnasol, ac mae wedi bod o gymorth i nodi tir yr ystad lle mae cyfle am brosiectau yn ymwneud â bioamrywiaeth neu'r hinsawdd. (Gweler hefyd Cam Gweithredu 16.)

**Cyrraedd Statws Caru Gwenyn:** Ym mis Rhagfyr 2023, cyflwynodd Cyngor Sir y Fflint Gais Caru Gwenyn i Dasglu Pryfed Peillio Llywodraeth Cymru. Nod y Cynllun Achredu Caru Gwenyn Cenedlaethol, a sefydlwyd gan Gyfeillion y Ddaear Cymru a Llywodraeth Cymru, yw eirioli dros gamau gweithredu sy'n gyfeillgar i beillwyr ar draws sectorau amrywiol gan gynnwys cymunedau, ysgolion, prifysgolion, busnesau a mannau addoli. Ym mis Ionawr 2024 dyfarnwyd Gwobr Caru Gwenyn i Gyngor Sir y Fflint, gan ei wneud y pumed awdurdod lleol yng Nghymru i gael y statws hwn. Cynhaliwyd seremoni wobrwyo ym Mharc Gwepra ar 22 Ebrill 2024. Yn ystod y seremoni wobrwyo cafwyd cyflwyniad gan Sarah Slater (Swyddog Bioamrywiaeth Sir y Fflint), Carolyn Thomas (Aelod o'r Senedd), a Kathleen Carroll (Llywodraeth Cymru). Derbyniodd y Cynghorydd Gladys Healey y Wobr Caru Gwenyn ar ran Cyngor Sir

y Fflint. Mae'r Wobr yn glod i waith trawsadrannol llwyddiannus a fydd o fudd i beillwyr, amgylchedd iach a'r holl wasanaethau y mae'n eu darparu sy'n hanfodol ar gyfer ein lles. Byddwn yn darparu diweddariadau blynyddol i'r Tasglu am ein gweithredoedd parhaus i gadw'r statws.

## Galluogwyr Allweddol ar gyfer Camau Gweithredu Bioamrywiaeth

**Staff bioamrywiaeth ychwanegol:** Mae cyllid grant refeniw a dderbynnir yn flynyddol ers 2022 drwy fenter Lleoedd Lleol ar gyfer Natur LIC yn parhau i'n galluogi i gadw staff rheng flaen Bioamrywiaeth. Mae hyn wedi bod yn hanfodol, ac fe'i croesewir. Mae staff yn darparu arweiniad mewnol, paratoi a chyflawni prosiectau a ariannwyd gan grantiau, hwyluso camau gweithredu statudol, arolygu a monitro safleoedd a rhywogaethau, ac addysgu, rhoi cyhoeddusrwydd a hyrwyddo mewn perthynas â'r amgylchedd. Mae'r capasiti ychwanegol hwn yn galluogi dull gweithredu rhagweithiol ar gyfer cadwraeth bioamrywiaeth yn Sir y Fflint.

**Parhad cyllid grant Lleoedd Lleol ar gyfer Natur:** Mae rhaglen Lleoedd Lleol ar gyfer Natur yn parhau i ategu'r gwaith o weithredu dros fioamrywiaeth yn sylweddol ledled ardaloedd cyhoeddus a reolir gan yr Awdurdod Lleol. Mae wedi hwyluso cynnydd yng ngraddfa a chwmpas ein gwaith i symud oddi wrth ddibyniaeth ar blaladdwyr cemegol a buddsoddi mewn peiriannau i gefnogi dulliau newydd o reoli, gan leihau'r risg sy'n gysylltiedig â'r newidiadau hyn a hwyluso trawsnewid mewn ymddygiad. Mae'n parhau i ddarparu cyfleoedd grant refeniw i ganiatáu mwy o gapasiti staff, er bod hynny ar sail fyrdymor. Mae hyn wedi bod yn hanfodol i fynd i'r afael yn effeithiol â'r argyfwng natur, cyflawni prosiectau a ariannwyd gan grantiau, a defnyddio dull gweithredu rhagweithiol mewn perthynas â chadwraeth natur leol.

**Cefnogaeth uwch reolwyr a Chynghorwyr Sir:** Wrth fonitro 380 o rywogaethau Cymru ers 1994, gwelwyd bod eu niferoedd wedi gostwng 20% ar gyfartaledd. Dengys hyn yn glir fod dulliau hanesyddol wedi cael effaith negyddol ar natur ac, o ganlyniad, ar y systemau y dibynnwn arnynt am ein lles. I gynnal a gwella bioamrywiaeth, yn unol â gofynion dyletswydd Adran 6, bydd yn rhaid i ni roi newid ar waith. Gall cyflawni newid mewn arferion a phrosesau sefydledig fod yn heriol, felly mae dealltwriaeth a chefnogaeth lefel uchel yn hanfodol. Yr ydym wedi elwa o hyn yng Nghyngor Sir y Fflint; mae cefnogaeth gan uwch reolwyr a Chynghorwyr Sir etholedig yn allweddol i alluogi gweithredu parhaus ac effeithiol ym maes bioamrywiaeth.

**Dyletswydd statudol:** Mae dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o'r ddyletswydd yn cynyddu'n fewnol ac allanol a ledled cyrff cyhoeddus eraill yn Sir y Fflint. Gydag awdurdodau lleol dan bwysau ariannol cynyddol wrth symud ymlaen, bydd natur statudol y ddyletswydd yn allweddol ar gyfer parhau i weithredu.

## Effeithiau Negyddol Nodedig neu Barhaus, ac Unrhyw Rwystrau rhag Gweithredu

**Mae llawer o'r problemau neu rwystrau a wynebwyd yn y rownd adrodd ddiwethaf yn dal heb newid.**

**Tuedd i gadw pethau fel y maent a pheidio â rhoi digon o werth ar asedau naturiol:** Mae'r duedd i ffafrio amodau presennol yn hytrach na newid yn rhwystr mawr rhag gweithredu. Mae pobl yn aml yn mynegi pryderon ynglŷn â chostau oes gyfan asedau naturiol, y risgiau canfyddedig, gofynion cynnal a chadw parhaus, a gwrthdaro posibl â blaenoriaethau eraill. Mae hyn yn arbennig o heriol mewn sefydliad lle mae pwysau cyllidebol sylweddol, sydd yn destun craffu gan y cyhoedd. O ganlyniad, rhoddir gormod o werth yn aml ar arferion a phrosesau presennol, tra mae costau sylweddol peidio â gweithredu, a'r ystod eang o fuddion y gall gweithredu amgylcheddol eu darparu, yn cael eu hanwybyddu neu ni roddir digon o bwys arnynt.

**Natur anamlwg a thymor hwy budd bioamrywiaeth:** Nid yw prosiectau gwella a gaiff effaith gadarnhaol ar fioamrywiaeth bob amser yn amlwg yn weledol nac yn cael effaith ar unwaith. Er enghraifft:

Bydd ardaloedd lle torrir y glaswellt yn llai aml, dan y rheolaeth gywir, yn gwella amrywiaeth yn raddol dros amser heb gynnydd sylweddol mewn lliw ac apêl esthetaidd i'r cyhoedd. Gellid yn hawdd peidio â sylwi ar yr holl fuddion amgylcheddol i natur a phobl, a'u gwerthfawrogi – buddion sy'n cynnwys creu bwyd a lloches i beillwyr, amsugno mwy o ddŵr, amsugno llygredd, a dal mwy o garbon.

**Agweddau'r cyhoedd:** Mae agweddau'r cyhoedd tuag at natur yn aml yn dangos ymagwedd gefnogol, mewn egwyddor, ond amharodrwydd yn ymarferol pan gynigir gwelliannau i asedau naturiol gerllaw. Er y gallai unigolion gefnogi'n gryf y syniad o ddiogelu'r amgylchedd a gwella bioamrywiaeth yn gyffredinol, mae'n bosibl y byddant yn gwrthwynebu mentrau o'r fath yn eu cyffiniau oherwydd pryderon ynglŷn ag anghyfleustra ymddangosiadol, tarfu, neu newidiadau i dirweddau lleol. Mae'r patrwm hwn yn adlewyrchu tuedd "nid ar garreg fy nrws i", lle nad yw cefnogaeth fras i natur bob amser yn golygu y derbynnir gweithredu yn lleol.

**Cyllid grant byrdymor:** Er y croesewir y cynnydd yn y cyllid grant sydd ar gael ar gyfer prosiectau bioamrywiaeth, nid yw'r amserlenni byrdymor yn addas i'r diben o gyflawni effaith hirdymor i fioamrywiaeth neu brosiectau y mae'n ofynnol mynd drwy brosesau paratoi a chyflawni cymhleth ar eu cyfer. Mae cyllid refeniw yn ategu swyddi a ariennir gan grantiau byrdymor; nid ydynt yn hybu cysondeb o ran staff na chadw sgiliau a phrofiad.

**Dyletswydd statudol:** Mae yna beth wmbreth o ddeddfwriaeth y mae'n rhaid i awdurdodau lleol gydymffurfio â hwy. Mae tystiolaeth yn awgrymu y gall cosbau sbarduno cydymffurfiaeth. Mae'n bosibl bod y diffyg cosbau yn ymwneud â dyletswydd Bioamrywiaeth Adran 6 yn gysylltiedig â gostwng ei blaenoriaeth ymysg awdurdodau lleol lle mae her sylweddol i gyllidebau ac adnoddau staff.

## Adroddiad Gweithredu

### Amcan 1 Cynllun Gweithredu Adfer Natur[1]: Ennyn a chefnogi cyfranogiad a dealltwriaeth er mwyn i fioamrywiaeth fwrw gwreiddiau yn y broses benderfynu ar bob lefel.

### Cam Gweithredu 1. Ymgysylltu ag adrannau allweddol ledled y Cyngor i gefnogi'r gwaith o weithredu dyletswydd Adran 6




Ers 2022 bu cynnydd da yn yr ymgysylltu ag adrannau allweddol ledled y Cyngor. Mae'r gwaith wedi ehangu gyda'n Hadran Gwasanaethau Stryd (gweler hefyd Cam Gweithredu 13). Yr ydym wedi gweithio'n agos â'n Hadran Menter ac Adfywio i gefnogi prosiectau isadeiledd gwyrdd trefol; yr oedd cynnwys Archwiliadau Isadeiledd Gwyrdd o fewn Cynlluniau Creu Lleoedd yn allweddol wrth ysgogi gwaith isadeiledd gwyrdd trefol. Gweithiwn yn rheolaidd gyda'r Uned Ynni a'r Timau Llifogydd mewn perthynas â safleoedd ynni, rheoli llifogydd yn naturiol a phrosiectau creu gwlyptiroedd. Gweithiwn gyda'n Hadrannau Tai a Phrisio ac Ystadau i weithredu ar fioamrywiaeth a'r hinsawdd ar ein hasedau tir, ac yr ydym yn cyfathrebu'n rheolaidd a pharhaus ac yn cydweithio â'r Tîm Hinsawdd, gan fod yn bresennol mewn amrywiol weithgorau ar yr hinsawdd i ategu'r gwaith o gyflawni'r Strategaeth Newid Hinsawdd. Gweithiwn gyda'n Hadran Addysg a Thîm Datblygu Chwarae i ddarparu rhaglen Hyrwyddwyr Eco Sir y Fflint ar gyfer ysgolion cynradd ynghyd â gwella bioamrywiaeth ar diroedd ysgolion. Yr ydym hefyd wedi gwella ein gwaith gyda thîm Ystadau, sy'n caniatáu i ni asesu rhai deiliadaethau tir sydd â'r potensial i wella bioamrywiaeth neu'r hinsawdd. Arweiniodd hyn at nifer o brosiectau, yn cynnwys argaeau rhidyllog a phrosiectau rheoli llifogydd yn naturiol. Mae'r cysylltiadau cryfion hyn ar draws timau ac adrannau yn caniatáu gweithio cydgysylltiedig gwirioneddol, cyfuno adnoddau a chyllid, a datblygu ceisiadau ar y cyd am gyllid, sy'n galluogi gwell canlyniadau ar draws adrannau ac ar gyfer ein cymunedau yn Sir y Fflint.

[1] Cynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru

*Ffigur 1. Meysydd gwaith trawsadrannol allweddol*

| **Adran / Tîm** | **Camau Gweithredu / Ymyriadau** |
|---|---|
| Tai | Rheoli llifogydd yn naturiol, cefnogaeth ar gyfer rheoli chwyn heb glysoffad |
| Prisio ac Ystadau | Cyfle hinsawdd a natur yr ystadau |
| Addysg | Gwella tiroedd ysgolion, Hyrwyddwyr Eco Sir y Fflint |
| Menter ac Adfywio | Noddi cylchfannau, Archwiliadau Isadeiledd Gwyrdd Cynlluniau Creu Lleoedd, Isadeiledd Gwyrdd Trefol |
| Gwasanaethau Stryd | Safleoedd blodau gwylltion, torri glaswellt, plannu coed, lleihau'r defnydd o blaladdwyr, gwella mynwentydd, ymgysylltu |
| Llifogydd | Rheoli llifogydd yn naturiol, draenio trefol cynaliadwy, creu gwlyptiroedd |
| Ynni | Plannu coed, Hyrwyddwyr Eco Sir y Fflint, rheoli safleoedd ynni adnewyddadwy |
| Newid Hinsawdd | Addysg ac ymgysylltu, defnydd tir, plannu coed |
| Rheoli Datblygu a Mwynau | Ymateb a chyngor ecolegol ar geisiadau cynllunio, prosiectau strategol ar raddfa fawr a safleoedd mwynau |
| Gwella | Gwella bioamrywiaeth ardaloedd chwarae |

## Cam Gweithredu 2. Asesu cynlluniau a pholisïau presennol y Cyngor o ran yr effaith ar fioamrywiaeth a dylanwadu pan fo'n bosibl




Mae gweithredu ar fioamrywiaeth yn nodwedd arwyddocaol o'r Strategaeth Newid Hinsawdd ac mae gwaith o fewn y strategaeth yn golygu adolygu cynlluniau a pholisïau i asesu effaith amgylcheddol a chyfleoedd. Mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo'n barhaus. Gellir gweld y strategaeth yma. Bydd Tîm Bioamrywiaeth yn bresennol yn nifer o fforymau swyddogion y Strategaeth Newid Hinsawdd. O fewn y fforymau hyn mae gwaith parhaus i ystyried cwmpas ac effaith bosibl amryw bolisïau mewnol ar yr amgylchedd, gan geisio cyfleoedd i adolygu a diwygio pan ellir gwneud newid cadarnhaol. Mae cynlluniau'r Cyngor yn destun y broses asesu effaith integredig sy'n ystyried effaith amgylcheddol a bioamrywiaeth. Mae canllawiau a manylion cyswllt staff yn cyd-fynd â'r ffurflenni asesu er mwyn darparu mwy o arweiniad os oes angen hynny ar reolwyr prosiect.

Mae proses ymgeisio achosion busnes cyfalaf bellach yn cynnwys ystyriaeth i effaith ar yr hinsawdd a natur, ac mae'n ofynnol cael cyfranogiad gan staff bioamrywiaeth i asesu'r effaith bosibl ac awgrymu mesurau i hyrwyddo buddion bioamrywiaeth. Mae hyn yn caniatáu i ymgysylltiad cynnar allweddol ac argymhellion bioamrywiaeth gael eu hymgorffori i gynlluniau cyfalaf. Mae Gweithgor Isadeiledd Gwyrdd Canol Trefi, a ffurfiwyd yn ystod y cyfnod adrodd hwn o ganlyniad i waith ar y cyd â'r Adran Menter ac

Adfywio, hefyd yn darparu fforwm trawsadrannol sy’n galluogi i gyfle am brosiect er budd bioamrywiaeth gael ei nodi’n gynnar.

## Cam Gweithredu 3. Sicrhau ystyriaeth lefel uchel o ddyletswydd yn nogfennau’r Cyngor




Mae staff bioamrywiaeth a’r amgylchedd naturiol yn darparu sylwadau ac ymateb rheolaidd i gynlluniau lefel uwch.

Nid yw gweithredu’r ddyletswydd yn ymddangos yn benodol mwyach yng Nghynllun y Cyngor, sy’n canolbwyntio ar leihau carbon; fodd bynnag, mae monitro Cynllun y Cyngor yn cynnwys mesurau dangosyddion perfformiad y gwaith o gyflawni dyletswydd Adran 6.  Mae cyflawni Adran 6 yn ymddangos hefyd yn y Strategaeth Newid Hinsawdd, yn ogystal â’r Cynllun Gwasanaeth Adrannol. Gellwch weld Cynllun y Cyngor yn llawn yma.

*Ffigur 2. Blaenoriaeth ‘Cyngor Gwyrdd’ Cynllun y Cyngor 2023-28*




## Cam Gweithredu 4. Sicrhau bod effaith amgylcheddol yn cael ei hystyried drwy’r broses gaffael




Mae gan y Cyngor fethodoleg gref wedi ei sefydlu drwy ein fframwaith Themâu, Canlyniadau a Mesurau (TOMs) ein hunain sy’n defnyddio ffactorau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol o fewn gweithrediadau caffael. Mae elfen ofynnol gwerth cymdeithasol yn y broses gaffael bellach yn darparu cyfle am ystyriaethau amgylcheddol, ac mae wedi ei gweithredu’n llwyddiannus er budd bioamrywiaeth a chysondeb, a sicrhau nad yw ffactorau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol yn cael eu peryglu.

Mae cyfleoedd ac effeithiau amgylcheddol ychwanegol o fewn y broses gaffael yn cael eu hystyried ymhellach drwy grŵp swyddogion penodol sy’n rhoi’r Strategaeth Newid Hinsawdd ar waith. Mae’r gwaith hwn yn mynd rhagddo.

## Cam Gweithredu 5. Parhau i weithio mewn partneriaeth i gydlynu’r bartneriaeth natur ranbarthol (Bionet)




Daeth prosiect Partneriaethau Natur Lleol Cymru i ben yn 2022. Bu’n gymorth i ddatblygu’r Bartneriaeth Natur Leol (PNL / Bionet), cynyddu ei effeithiolrwydd gymaint â phosibl, a chefnogi gweithredoedd cadwraeth cydweithredol ledled gogledd-ddwyrain Cymru. Bu’r prosiect yn ariannu amser staff i ddatblygu prosiectau ar y cyd, gan gynnwys monitro rhywogaethau, cadwraeth drwy ddefnyddio a chasglu data gofodol a gweithgareddau hyrwyddo / cyhoeddusrwydd ar gyfer adfer natur, yn cynnwys creu gwefan y bartneriaeth.

Yn 2022 bu ychwanegiad staff bioamrywiaeth wedi eu hariannu gan grant mewn awdurdodau lleol ledled y rhanbarth yn fodd i ganiatáu cynnydd parhaus yn y cydweithio, gan gynnwys monitro rhywogaethau a chynefinoedd, casglu data gofodol, cyhoeddusrwydd a digwyddiadau (cynnwys ar y cyfryngau cymdeithasol, cynhadledd flynyddol, gwobrau Bionet a datblygu adnoddau).  O 2023 bu Awdurdodau Lleol gogledd-ddwyrain Cymru’n cydweithio i ariannu swydd Swyddog Prosiect Partneriaeth Natur Leol drwy grant, sydd wedi bod mewn bodolaeth ers hynny. Mae Swyddog Prosiect y PNL / Bionet yn gweithio ledled y rhanbarth ac yn arwain cyd-drefniant y bartneriaeth, hwyluso prosiectau cydweithredol, datblygu’r cynllun gweithredu adfer natur ymhellach a mynd ati i chwilio am gyllid grant.

Ers hynny yr ydym wedi datblygu ein gwobrau, cynhadledd flynyddol, adnoddau ar y we, presenoldeb ar y cyfryngau cymdeithasol a digwyddiadau lawer ymhellach, ac wedi datblygu cyfarfodydd chwarterol sy’n canolbwyntio ar gynefinoedd, gan ymgysylltu â phartneriaid newydd yn y broses. Mae’r Bartneriaeth Natur Leol yn ymgysylltu’n rheolaidd â phartneriaid newydd ac yn hwyluso prosiectau cydweithredol newydd ledled y rhanbarth.

## Cam Gweithredu 6. Parhau i ddatblygu a chyflawni prosiectau gyda sefydliadau partner




Mae hwn yn faes gweithredu deinamig gyda chyfleoedd am gyllid grant sy’n newid yn rheolaidd ac ystod amrywiol o bartneriaid prosiect posibl. Mae gennym sawl prosiect gydag amrywiaeth o sefydliadau partner yn rheolaidd. Mae cefnogi a datblygu’r partneriaethau hyn, sydd o les i’r naill a’r llall ohonom, yn hanfodol ar gyfer gweithredu’n llwyddiannus dros natur yn lleol. Gweithiwn yn agos gyda’r awdurdodau lleol cyfagos a llawer o sefydliadau cadwraeth. Mae ystod eang o’n prosiectau partneriaeth rhanbarthol i’w gweld ar wefan partneriaeth natur Bionet yma.

Ers 2022, mae ein cynllun Grant Bach ar gyfer Natur, a sefydlwyd drwy ddefnyddio cyllid grant Lleoedd Lleol ar gyfer Natur, wedi darparu cyfleoedd i weithio mewn partneriaeth ledled Sir y Fflint yn cefnogi grwpiau lleol i weithredu er lles natur. Buom yn gweithio gyda 17 o wahanol grwpiau lleol, ysgolion, elusennau, eglwysi a ffrindiau grwpiau. Gan amlaf, byddai’r cyllid yn darparu eitemau ar gyfer ymgeiswyr llwyddiannus, fel blychau adar, blychau ystlumod, gwestai pryfed / gwenyn, yn ogystal â hadau blodau gwylltion, planhigion a bylbiau. Ond yr oedd hefyd yn gymorth ar gyfer darparu gweithdai gwirfoddolwyr a phlanhigion ar gyfer pobl ifanc ag anghenion addysg arbennig. O ganlyniad i lwyddiant y Grant Bach ar gyfer Natur yr ydym yn bwriadu cynnal ail rownd o grant tebyg yn 2026 ar gyfer grwpiau cymunedol lleol sy’n awyddus i weithredu er budd natur.

Mae’r sefydliadau partner yr ydym wedi cydweithio â hwy ers 2022 yn cynnwys: Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru (plannu ar gyfer peillwyr, prosiect adfer hadau), Cadwraeth Amffibiaid ac Ymlusgiaid (rheoli a chreu cynefinoedd). Ac ystod o Gynghorau Tref a Chymuned, grwpiau cymunedol a chadwraeth (creu cynefinoedd, digwyddiadau, hyfforddiant).

## Cam Gweithredu 7. Parhau i ddatblygu a darparu cyfathrebu mewnol a hyfforddiant




Yr ydym wedi gwneud cynnydd wrth ddatblygu ein cyfathrebu mewnol a hyfforddiant. Mae Tîm Bioamrywiaeth yn gweithio'n agos ar draws adrannau. Yr ydym yn bresennol mewn cyfarfodydd cydweithio rheolaidd, gan weithio'n agos â staff penodol o'r Gwasanaethau Stryd, Menter ac Adfywio, Ynni a Newid Hinsawdd a Llifogydd.

Darparwyd hyfforddiant ac esboniadau ar gyfer systemau a pheiriannau penodol i staff y Gwasanaethau Stryd a Chefn Gwlad, gan gynnwys rheoli chwyn heb gemegau, peiriannau torri a chasglu amrywiol, ac offer trydanol i gynnal a chadw tiroedd.

Cynhaliwyd Seminar Isadeiledd Gwyrdd Trefol gennym ar gyfer staff ym mis Mawrth 2025, wedi ei chydlynu gan Dimau Bioamrywiaeth ac Adfywio. Yn y seminar amlygwyd astudiaethau achos lleol ac arferion gorau ar gyfer cyflwyno isadeiledd gwyrdd, gan hybu bioamrywiaeth o fewn cynllun a datblygiad, a chafodd ymateb da gan staff.

Mae Cynghorwyr Sir a staff wedi bod yn bresennol mewn nifer o ddigwyddiadau ychwanegol yn ymwneud â bioamrywiaeth, gan gynnwys ein digwyddiad cyflwyno gwobrau Caru Gwenyn, cyfarfod briffio ynglŷn â blodau gwylltion a gweithdy.

Datblygwyd modiwl e-ddysgu a'i ychwanegu at ein hadnoddau dysgu ar-lein sydd ar gael i'r holl staff a Chynghorwyr Sir.

Yr ydym yn cydnabod bod mwy y gallwn ei wneud o hyd i gefnogi cyfathrebu mewnol, ac yr ydym yn y broses o ddiweddaru a gwella ein tudalennau gwe ac ychwanegu at y wybodaeth a'r adnoddau y rhannwn gyda staff a chynghorwyr.

## Cam Gweithredu 8. Parhau gyda'n rôl yn addysgu preswylwyr a chenedlaethau'r dyfodol ynglŷn â phwysigrwydd ein hamgylchedd naturiol





Yr oedd codi ymwybyddiaeth a gwella dealltwriaeth yn dal i fod yn flaenoriaeth drwy'r cyfnod adrodd hwn. Yr ydym yn addysgu preswylwyr a chenedlaethau'r dyfodol ynglŷn â phwysigrwydd natur mewn amrywiol ffyrdd.

Yr ydym yn cynnal ystod eang o weithgareddau a digwyddiadau gyda'n Gwasanaeth Cefn Gwlad a phartneriaid cadwraeth. Dros y cyfnod adrodd yr oedd hyn yn cynnwys teithiau cerdded a sgyrsiau am ystlumod, digwyddiadau yn ymwneud â pheillwyr, diwrnodau coetiroedd a choed, digwyddiadau dolydd, teithiau cerdded yn ymwneud â phlanhigion ac adar, ymweliadau a sgyrsiau ag ysgolion, a mwy. Mae Tîm Bioamrywiaeth wedi cynyddu'n sylweddol nifer y digwyddiadau a gynhelir y mae staff yn bresennol ynddynt; yn 2022 cynhaliwyd 3 digwyddiad gennym, cafwyd 12 digwyddiad yn 2024 a 13 digwyddiad yn 2025, ac eithrio ymweliadau ag ysgolion a digwyddiadau gwirfoddoli. Mae digwyddiadau'n drwm ar gapasiti ac adnoddau ond gallant fod yn amhrisiadwy i ymgysylltu â chynulleidfaoedd newydd. Byddwn bob amser yn ymdrechu i wella ein digwyddiadau; i baratoi ar gyfer 2026 yr ydym wedi creu ffurflen adborth ar gyfer digwyddiadau a fydd yn ein galluogi i dderbyn adborth a chynorthwyo i wella bodlonrwydd y rhai sy'n bresennol.

Yn 2024 cychwynnwyd sioe deithiol gennym am flodau gwylltion, gan fynd â gwybodaeth ynglŷn â'n gwaith cynnal a chadw ystadau a'r peiriannau a ddefnyddiwn i ddigwyddiadau ledled y sir. Cynigiwyd y sioe deithiol am flodau gwylltion yn y lle cyntaf fel prosiect ar y cyd rhwng Tîm y Gwasanaethau Stryd,

sy'n rheoli mannau gwyrdd a lleiniau ledled Sir y Fflint, a Thîm Bioamrywiaeth. Darparodd y sioe deithiol gyfle i'r ddwy adran fod yn bresennol mewn digwyddiadau cyhoeddus pwysig ledled Sir y Fflint, gyda nod cyfunol o godi ymwybyddiaeth am flodau gwylltion a phwysigrwydd lleiniau gwylltach a chynnwys natur yn ein mannau gwyrdd. Ymgysylltodd y sioe deithiol hon ag amrywiaeth eang o gynulleidfaoedd newydd. Yr oedd cylchdroi i ddigwyddiadau newydd yn sicrhau y gallem siarad â'r cyhoedd o wahanol ardaloedd yn Sir y Fflint. Mae'n bwysig cael mewnwelediad a barn o bob cwr i'r sir, er mwyn deall ac ymateb i ystod eang o safbwyntiau. Buom mewn digwyddiadau yn y Fflint, Cei Connah, Bwcle, Caerwys a Phenarlâg – pob un â miloedd yn bresennol – a buom yn siarad â channoedd o breswylwyr (2024 (383) 2025 (403)). Cynhaliwyd arolwg barn anffurfiol yn gofyn i bobl a oeddynt yn gefnogol i beidio â thorri glaswellt mewn rhai ardaloedd am gyfnodau hwy. Yr oedd y farn gyffredinol yn gadarnhaol mewn perthynas ag ardaloedd o flodau gwylltion yn y rhan fwyaf o'r digwyddiadau. Canfuwyd diffyg dealltwriaeth cyffredin ynglŷn â'r elfen o reoli safleoedd blodau gwylltion. Bwriadwn barhau â'r sioe deithiol yn 2026, a defnyddio'r holl bethau a ddysgwyd yn 2024/25 er mwyn cael yr effaith fwyaf a gwneud y mwyaf o'r sgyrsiau y gallwn eu cael â phreswylwyr Sir y Fflint.

*Ffigur 4. Lluniau o Sioe Deithiol Blodau Gwylltion 2024/25 a chanlyniadau arolwg barn anffurfiol 2025 a wnaed yn ystod sgyrsiau gyda'r rhai a oedd yn bresennol yn y digwyddiad.*




Mae gennym amserlen ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol a byddwn yn rhannu cynnwys ar dri phlatfform allweddol, tudalen Facebook corfforaethol Cyngor Sir y Fflint, ein platfformau Cefn Gwlad ac Arfordir a chyfryngau cymdeithasol y Bartneriaeth Natur Leol. Mae hyn wedi galluogi presenoldeb rheolaidd, tymhorol ac amserol ar y cyfryngau cymdeithasol sy'n hybu mwy o ymgysylltu.

Yr ydym hefyd wedi gwella ein proses o gyhoeddi datganiadau i'r wasg yn ddiweddar, gan weithio gyda thîm cyfathrebu corfforaethol.

Yr ydym wedi gosod pyst adnabod mewn ardaloedd o flodau gwylltion gyda chodau QR ychwanegol ar safleoedd priodol. Mae hyn yn cysylltu â gwefan y bartneriaeth natur ac yn darparu gwybodaeth i'r cyhoedd am y safle penodol, gan gynnwys pryd a sut y crëwyd y safle, pryd y cafodd ei fonitro ddiwethaf, pa rywogaethau yr ydych yn debygol o'u gweld a pha beillwyr sy'n cael budd o hyn. Yn unol â'r elfen weledol hon i'r cyhoedd yr ydym hefyd wedi nodi cerbydau allweddol gyda logo Caru Gwenyn er mwyn amlygu i'r cyhoedd y gwaith cadwraeth y maent yn eu cefnogi.

Yn dilyn treialu Hyrwyddwyr Eco Sir y Fflint yn 2022 yr oeddem yn gallu adnewyddu ac ail-lansio'r prosiect yn 2024/25. Gan fanteisio ar gysylltiadau mewnol gwell yr oeddem yn gallu cyflawni prosiect Hyrwyddwyr Eco Sir y Fflint yn fewnol drwy weithio gyda'n Tîm Datblygu Chwarae. Mae Hyrwyddwyr Eco yn rhaglen ddysgu 5 wythnos o hyd, sy'n seiliedig ar chwarae ac wedi ei chynllunio ar gyfer disgyblion blwyddyn 6, er mwyn ceisio sicrhau bod ganddynt y wybodaeth, y sgiliau a'r cymhelliant i weithredu fel gwarcheidwaid cyfrifol i'w hamgylchedd. Cyflwynir y rhaglen gan dîm Datblygu Chwarae Sir y Fflint ar ran Tîm Bioamrywiaeth Sir y Fflint, ac mae'n cefnogi ysgolion gydag ymgorffori ymwybyddiaeth

amgylcheddol a chynaliadwyedd yn y cwricwlwm trwy brofiadau actif ac ymarferol. Mae'r prosiect yn fan cychwyn defnyddiol i ysgolion o ran dechrau neu wella eu gwaith bioamrywiaeth a charbon eu hunain, gan gyfrannu at gynlluniau datblygu ysgol gyfan yn ymwneud â chynaliadwyedd a llythrennedd ecolegol. Ers ei lansio, mae rhaglen Hyrwyddwyr Eco wedi cyrraedd **567** o blant dros **20** o sesiynau yn ystod y flwyddyn ysgol, ac mae'r galw'n parhau i gynyddu. Mae llwyddiant y rhaglen yn brawf hefyd o gryfder y cydweithio rhwng adrannau. Mae'r rhaglen hefyd yn cyd-fynd â gwaith ysgolion ar bwyllgorau eco, dysgu yn yr awyr agored, a datblygu pedwar diben y Cwricwlwm i Gymru – yn arbennig o ran cefnogi plant i ddod yn ddinasyddion egwyddorol a gwybodus, sy'n dangos ymrwymiad i gynaliadwyedd y blaned.

Mae Tîm Bioamrywiaeth wedi creu amrywiaeth o daflenni ac adnoddau yn darparu gwybodaeth am wahanol feysydd o'n gwaith, taflenni am ein gwaith o reoli blodau gwylltion a phwysigrwydd coed. Dosbarthwyd y rhain i bob llyfrgell yn y sir i sicrhau bod gwybodaeth ar gael i'r cyhoedd. Yr ydym hefyd wedi creu adnoddau drwy Hyrwyddwyr Eco Sir y Fflint ac Wythnos Hinsawdd Cymru, sydd ar gael ar gyfer addysg natur mewn ysgolion.

Yr ydym eisiau gwneud yr adnoddau hyn yn fwy hygyrch, hyd yn oed, ynghyd â gwybodaeth arall ynglŷn â'n gwaith, ac yr ydym yn y broses o ddiweddaru ac adnewyddu ein tudalennau gwe natur a fydd yn darparu lle ar gyfer yr holl wybodaeth am fioamrywiaeth.

**Cam Gweithredu 9. Parhau i ddarparu ac ehangu ein cyfleoedd gwirfoddoli amgylcheddol**




Yr ydym wedi gallu cynnwys gwirfoddolwyr wrth gyflawni prosiectau drwy ddigwyddiadau plannu coed a chynaeafu hadau, gan ddefnyddio grantiau bach ar gyfer natur a rheoli rhywogaethau goresgynnol.

Yr ydym hefyd wedi gallu ailsefydlu rhai o'n rhaglenni monitro rhywogaethau ar gyfer gwirfoddolwyr ond mae gwaith i'w wneud o hyd i ehangu hyn. Trwy wefan y bartneriaeth natur byddwn yn tynnu sylw at gyfleoedd gwirfoddoli ar brosiectau gyda'n partneriaeth cadwraeth, ac yn hyrwyddo cyfleoedd gwirfoddoli drwy blatfformau cyfryngau cymdeithasol y bartneriaeth natur.

Ystyrir cyfleoedd gwirfoddoli corfforaethol mewnol yn rhaglen waith y Strategaeth Newid Hinsawdd. Mae'r gwaith hwn ar y gweill.

### Mae Amcan 1 Cefnogi Natur yn Sir y Fflint yn datgan:

Lle dylem fod:

- *Ystyried effaith penderfyniadau ar yr amgylchedd naturiol ar draws yr holl adrannau fel elfen safonol a sicrhau bod penderfyniadau yn ceisio hyrwyddo a hybu natur lle bynnag fo hynny'n bosibl.*
- *Cydlynu Partneriaeth Natur Ranbarthol effeithiol a dylanwadol a chreu cyfleoedd ar gyfer gweithio mewn partneriaeth.*
- *Mae ein staff yn deall yr effaith y gallant ei chreu ar y byd naturiol ac maent yn hyderus i awgrymu newid i gefnogi gwelliannau parhaus tuag at gynaliadwyedd.*
- *Cefnogi a hyrwyddo dealltwriaeth gref o bwysigrwydd natur ar draws ein cymunedau.*

### Amcan 1: Sylwadau Adroddiad 2025

- *Mae ystyriaeth o'r effaith y caiff gwaith Sir y Fflint ar fioamrywiaeth, ac o'r cyfleoedd ar gyfer gwella bioamrywiaeth, wedi gwella ymysg adrannau ers 2022; fodd bynnag, mae yna gyfleoedd yn cael eu colli o hyd, yn aml oherwydd y cyfyngiadau amser ar brosiectau neu ddiffyg cyfathrebu. Gan ddatblygu cysylltiadau trawsadrannol gwell, byddwn yn ymdrechu i leihau hyn wrth symud ymlaen.*
- *Mae gwaith sylweddol i'w wneud o hyd i addysgu ein cymunedau, chwalu camsyniadau a hybu gwerth natur er mwyn osgoi ei gymryd yn ganiataol a pheidio â'i werthfawrogi'n iawn.*

## Amcan 2 Cynllun Gweithredu Adfer Natur: Diogelu rhywogaethau a chynefinoedd o bwysigrwydd sylweddol a gwella'r modd y maent yn cael eu rheoli

### Cam Gweithredu 10. Cyhoeddi Cynllun Gweithredu Adfer Natur Lleol ar gyfer gogledd-ddwyrain Cymru




Mae'r Bartneriaeth Natur Leol (Bionet) wedi amlinellu'r tri chynefin blaenoriaethol ar gyfer ein hardal ar wefan y bartneriaeth natur gyda thargedau ar gyfer y byrdymor, y tymor canolig a'i hirdymor. Bydd y ddogfen hon yn datblygu ar-lein ac yn darparu tystiolaeth o newid ac arweiniad ar gyfer blaenoriaethau prosiectau cadwraeth rhanbarthol. Gellir ei gweld yma.

Yn ogystal, mae'r Bartneriaeth wedi creu adnoddau ar-lein yn darparu nifer o astudiaethau achos prosiectau sy'n ategu'r gwaith o gyflawni prosiectau.

Mae'r Bartneriaeth Natur Leol bellach yn cynnal cyfarfodydd sy'n canolbwyntio ar gynefinoedd yn fras trwy gydol y flwyddyn i alluogi monitro camau gweithredu a hwyluso camau gweithredu yn canolbwyntio ar gynefinoedd; a chesglir gwybodaeth am brosiectau gan bartneriaid, gan ddarparu trosolwg pwysig o'r gweithredu sy'n digwydd ledled y rhanbarth.

### Mae Amcan 2 Cefnogi Natur yn Sir y Fflint yn datgan:

*Lle dylem fod:*


- *Meddu ar Gynllun Gweithredu Adfer Natur Rhanbarthol effeithiol, arloesol a chydweithredol*

### Amcan 2: Sylwadau Adroddiad 2025

- *Yr ydym yn gweithio tuag at y targedau eang sydd yn y Cynllun Adfer Natur Rhanbarthol. Er bod hyn o gymorth i arwain y gweithredu, mae yna angen i ddatblygu'r cynllun ymhellach a chofnodi cynnydd ystyrlon tuag at dargedau'r cynllun.*
- *Cymerir ystod o gamau gweithredu ychwanegol gan Ecolegydd y Sir drwy ymgynghoriad cynllunio, trwyddedu rhywogaethau a chynefinoedd gwarchodedig, a mesurau lliniaru ecolegol a chydymffurfiaeth sy'n diogelu cynefinoedd a rhywogaethau Adran 7. Mae ein gwasanaethau ceidwaid hefyd yn ymwneud â'r gwaith o reoli nifer o safleoedd dynodedig a reolir ar gyfer cadwraeth. Yr ydym wedi dechrau arolygon a gwaith monitro ychwanegol yn rhai o'r safleoedd hyn, yn targedu rhywogaethau gwarchodedig penodol, a bwriadwn ddatblygu a ffurfioli'r gwaith arolygu hwn wrth symud ymlaen.*

## Amcan 3 Cynllun Gweithredu Adfer Natur: Cynyddu gwytnwch ein hamgylchedd naturiol drwy adfer cynefinoedd sydd wedi dirywio a chreu cynefinoedd

### Cam Gweithredu 11. Gwneud ystad y Cyngor yn wyrdd a gwella mannau gwyrdd hygyrch ar gyfer bywyd gwyllt a phobl




Mae tystiolaeth gynyddol o bwysigrwydd cynefin trefol naturiol lled-naturiol ar gyfer bioamrywiaeth, sy'n darparu cerrig camu a chysylltiadau naturiol drwy ein hamgylchedd trefol. Mae cyllid grant wedi galluogi cynnydd da wrth gynyddu ardaloedd blodau gwylltion a phlannu coed ledled ystad y Cyngor rhwng 2022 a 2025.

Mae ein rhaglen plannu coed wedi parhau o dymor i dymor ers 2022. Yn y cyfnod adrodd diwethaf rhwng 2019 a 2022 plannwyd 10,758 o goed gennym. Y swm hyd yma yn ystod y cyfnod adrodd hwn yw 11,866, ac mae gwaith plannu ychwanegol wedi ei drefnu'n ddiweddarach yn 2025. Mae ein rhaglen plannu coed wedi datblygu'n sylweddol ers 2022; mae coed sydd newydd eu plannu'n cael eu monitro a'u cynnal a chadw'n well er mwyn cynyddu'r gyfradd lwyddo, a gwneir gwaith trawsadrannol i hwyluso gwaith plannu coed trefol, gan gynnwys plannu coed safonol mawrion mewn tyllau coed arloesol, gan ddarparu bioamrywiaeth a budd esthetaidd i leoliadau trefol. (Gweler hefyd Cam Gweithredu 15.)


Mae ein newid o dorri glaswellt mewn modd confensiynol yn fanteisiol i natur ac i allyriadau / dal a storio carbon, ac mae'n cynorthwyo hefyd i wella amodau trefol lleol drwy amsugno mwy o lygredd, lleihau llifogydd dŵr wyneb, darparu rhwystrau gweledol a rhag sŵn, cynyddu gwerth eiddo a darparu cysgod ac oeri trefol.

Yn 2022 adroddwyd gennym fod cyfanswm o 11.8 hectar o'n hystad yn cael ei reoli ar gyfer amrywiaeth o flodau gwylltion. Mae hyn wedi cynyddu'n sylweddol i 48 hectar yn 2025. Bydd buddion y newidiadau hyn yn mynd y tu hwnt i fudd bioamrywiaeth a byddant o gymorth i gynnal gwytnwch amgylcheddol mewn hinsawdd sy'n newid, gyda thywydd eithafol cynyddol yn cynnwys cadw mwy o ddŵr yn ystod stormydd a sychder. (Gweler hefyd Cam Gweithredu 13.)

Mae Cyngor Sir y Fflint wedi gwella ei fannau gwyrdd hygyrch yn sylweddol ar gyfer bywyd gwyllt a phobl drwy ymrwymiad i symud oddi wrth ddefnyddio'r chwynladdwr glyffosad, sy'n niweidiol i'r amgylchedd ac sy'n peri risg i iechyd pobl. Yr ydym yn un o'r awdurdodau lleol arweiniol yng Nghymru i ymrwymo i leihau'r defnydd ohono, buddsoddi cyllid grant Lleoedd Lleol ar gyfer Natur mewn amrywiaeth o ddulliau amgen i reoli chwyn, gan gynnwys ewyn poeth, gwres a rheolaeth fecanyddol. Yr ydym yn dal i wella a datblygu'r maes gwaith hwn i wella effaith a'r ffordd y blaenoriaethir ardaloedd. Bydd y gwaith yn parhau i ymddangos yn ein gweithredoedd yn ymwneud â bioamrywiaeth yn y dyfodol, ynghyd â mwy o ymgysylltu i ategu dealltwriaeth.

Gwnaed y newidiadau pwysig ac effeithiol iawn hyn yn bosibl drwy weithio'n effeithiol ar draws adrannau a chefnogaeth barhaus gan uwch reolwyr a Chynghorwyr Sir.

*Ffigur 5. Dangosir cymhariaeth o'r mathau o wahanol safleoedd blodau gwylltion yr oeddem yn eu rheoli yn 2022 a 2025. Mae'r posibilrwydd a amlygwyd yn y rownd adrodd flaenorol i gynyddu safleoedd lle torrir y glaswellt yn llai aml wedi ei wireddu, gyda chynnydd o 7% i 72%. Mae hyn yn fuddiol am ei fod yn cefnogi cynnydd graddol o ran amrywiaeth drwy reolaeth, ac mae o gymorth i flodau gwylltion fwrw had.*




Yr ydym hefyd yn ymroddedig i wella cynefinoedd gwlyptiroedd ledled ein hystad yn unol â'r targedau yng Nghynllun Gweithredu Adfer Natur y Bartneriaeth Natur Leol. Mae gennym raglen barhaus o waith yn ymwneud â gwlyptiroedd a phyllau, gan adfer a chreu nifer o byllau bob blwyddyn gyda chyllid grant. Mae'r safleoedd yn cynnwys mannau gwyrdd hygyrch, ysgolion a pharciau gwledig. Pan fo'r safleoedd ar dir ysgolion byddwn yn ymweld â'r ysgol cyn gwneud y gwaith er mwyn amlygu pwysigrwydd cynefinoedd gwlyptiroedd a phyllau i ddysgwyr, a byddwn yn dychwelyd ar ôl i'r gwaith pwll gael ei wneud i gynnal gweithdai rhwydo mewn pyllau gyda'n partneriaid cadwraeth, Ymddiriedolaeth Cadwraeth Amffibiaid ac Ymlusgiaid. Mae hyn yn sicrhau bod y pwll yn cael ei werthfawrogi, ei ddeall, ac mae'n ennyn diddordeb cenedlaethau'r dyfodol yn y fioamrywiaeth sydd ar dir eu hysgol.

Yn 2025 yr ydym wedi bod yn gweithio ar y cyd â'n Hadrannau Tai a Llifogydd i roi dau brosiect rheoli llifogydd yn naturiol ar waith ar yr ystad yn yr Wyddgrug a Maes Glas. Mae gan y prosiectau hyn y potensial i gynorthwyo i leihau'r perygl o lifogydd mewn ardaloedd sydd wedi cael problemau llifogydd yn

y gorffennol, ac i fod o fudd i fioamrywiaeth drwy wella cynefin gwlyptir. Ein nod yw parhau'r maes gwaith trawsadrannol hwn yn y dyfodol.

**Cam Gweithredu 12. Cyrraedd Statws Caru Gwenyn:**




Dyfarnwyd Statws Caru Gwenyn i ni ym mis Ionawr 2024 am ein gwaith ar gyfer peillwyr yng nghategorïau Bwyd, Llety Pedair Seren, Rhyddid Rhag Plaladdwyr, a Hwyl.

Ym mis Rhagfyr 2023, cyflwynodd Cyngor Sir y Fflint Gais Caru Gwenyn i Dasglu Pryfed Peillio Llywodraeth Cymru. Nod y Cynllun Achredu Caru Gwenyn Cenedlaethol, a sefydlwyd gan Gyfeillion y Ddaear Cymru a Llywodraeth Cymru, yw eirioli dros gamau gweithredu sy'n gyfeillgar i beillwyr ar draws sectorau amrywiol gan gynnwys cymunedau, ysgolion, prifysgolion, busnesau a mannau addoli. Ym mis Ionawr 2024 dyfarnwyd Gwobr Caru Gwenyn i Gyngor Sir y Fflint, gan ei wneud y pumed awdurdod lleol yng Nghymru i gael y statws hwn. Cynhaliwyd seremoni wobrwyo ym Mharc Gwepra ar 22 Ebrill 2024. Yn ystod y seremoni wobrwyo cafwyd cyflwyniad gan Sarah Slater (Swyddog Bioamrywiaeth Sir y Fflint), Carolyn Thomas (Aelod o'r Senedd), a Kathleen Carroll (Llywodraeth Cymru). Derbyniodd y Cynghorydd Gladys Healey y Wobr Caru Gwenyn ar ran Cyngor Sir y Fflint. Mae'r Wobr yn glod i waith trawsadrannol llwyddiannus a fydd o fudd i beillwyr, amgylchedd iach a'r holl wasanaethau y mae'n eu darparu sy'n hanfodol ar gyfer ein lles.  Byddwn yn darparu diweddariadau blynyddol i'r Tasglu am ein gweithredoedd parhaus i gadw'r statws.

*Ffigur 6. Seremoni Wobrwyo Caru Gwenyn ym Mharc Gwepra, 22 Ebrill 2024*




O ganlyniad i'n gwaith cadarnhaol parhaus yn y maes hwn mae Tasglu Pryfed Peillio Cymru wedi gofyn i Gyngor Sir y Fflint ddarparu astudiaeth achos yn amlygu ein gweithredu. Bydd yr astudiaeth achos ar gael i'w gweld ar dudalennau gwe Tasglu Pryfed Peillio Cymru yn ddiweddarach yn 2025.

**Cam Gweithredu 13. Gwneud cynnydd gyda'n Hymgyrch Blodau Gwylltion ar draws yr adrannau**



Mae gwaith gyda'r Gwasanaethau Stryd wedi bod yn gadarnhaol ac wedi galluogi cynnydd yn arwynebedd yr ystad sy'n cael ei reoli er mwyn amrywiaeth o flodau gwyllion – o 11.8 hectar yn 2022 i 48 hectar yn 2025.

*Ffigur 7. Mae'r mapiau isod yn dangos y cynnydd yn y safleoedd a reolir er mwyn amrywiaeth o flodau gwylltion ledled y sir rhwng 2022 a 2025*




Mae gennym bellach 159 o safleoedd blodau gwylltion yn cael eu rheoli'n weithredol (sy'n cyfateb i 48 hectar), ac mae 82 safle arall wedi eu cynnig ac yn mynd drwy'r broses ystyried.

Yr ydym hefyd wedi cynnwys ac yn ehangu safleoedd mewn mynwentydd, safleoedd tir halogedig, llwybrau teithio llesol ac ardaloedd chwarae yn y prosiect hwn. Mae cyllid grant wedi bod yn allweddol wrth baratoi a / neu barhau i reoli'r safleoedd hyn, a buddsoddwyd mewn peiriannau hanfodol i gynorthwyo â'r newid yn y gwaith o reoli'r safleoedd.

Ni fydd yn rhaid ail-greu'n flynyddol yn y mwyafrif o'n safleoedd gan ein bod wedi canolbwyntio ar greu dolydd lluosflwydd drwy eu hau neu eu rheoli'n well, ond mewn nifer bach o safleoedd trefol bydd yn rhaid ail-hau'n flynyddol. Er mwyn cynhyrchu incwm i wneud y gwaith hwn yr ydym wedi cynnwys gwaith cynnal a chadw cynefinoedd blodau gwylltion yn ein cynllun noddi cylchfannau.

Buom yn gweithio mewn partneriaeth gydag Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru gan ddefnyddio cyllid Lleoedd Lleol ar gyfer Natur LIC i ddiogelu hadau lleol. Mae Cyngor Sir y Fflint wedi nodi safleoedd rhoi a derbyn hadau blodau gwylltion lleol, wedi buddsoddi mewn peiriannau cynaeafu hadau ac wedi dechrau cynaeafu hadau blodau gwylltion lleol yn llwyddiannus. Cyflwynwyd yr hadau hyn i safleoedd ledled Sir y Fflint, gan gynnwys ystad y Cyngor. Mae Cyngor Sir y Fflint yn ymroddedig i ddatblygu'r bartneriaeth lwyddiannus hon a chynyddu cwmpas a graddfa'r prosiect dros y blynyddoedd i ddod i ddarparu cyflenwad o hadau o darddiad lleol i'w defnyddio ledled Sir y Fflint.

## Cam Gweithredu 14. Datblygu ein prosiect 'Mapio i hybu adferiad natur'




Dechreuasom ddefnyddio meddalwedd fapio ArcGIS ar gyfer prosiectau bioamrywiaeth yn y rownd adrodd flaenorol, gan weithio ar y cyd â Chyngor Sir Ddinbych ar y dechrau i dargedu ac amlygu gweithredu cadwraethol. Yr ydym wedi parhau i ddefnyddio'r system fapio ac ehangu ein defnydd ohoni, gan ddatblygu arbenigedd mewnol yn y Tîm Bioamrywiaeth.

Mae'r system fapio'n caniatáu llawer mwy o ymarferoldeb ac effeithlonrwydd yn y maes, ac mae wedi bod yn amhrisiadwy wrth fapio a chofnodi cynnydd prosiectau.

Mae ein holl weithredu ar fioamrywiaeth wedi ei fapio bellach, ac yr ydym yn defnyddio'r system fapio a'r feddalwedd gysylltiedig ar gyfer monitro safleoedd blodau gwylltion a choed ac er mwyn i weithwyr maes awgrymu safleoedd ar gyfer gwella bioamrywiaeth. Rhennir mapiau a data rhwng adrannau er mwyn gweithio'n effeithlon. Ar gyfer y dyfodol yr ydym eisiau gwneud y mwyaf o'r budd ymgysylltu o'r system, a byddwn yn amcanu i ddefnyddio'r swyddogaeth Stori yn benodol ar gyfer hyrwyddo ein gweithredu dros natur yn Sir y Fflint.

## Cam Gweithredu 15. Parhau i weithredu Strategaeth Coed a Choetiroedd Trefol CSyFf




Mae ehangu gorchudd coed yn gwella bioamrywiaeth a mannau gwyrdd, yn creu cyfleoedd bwydo a nythu gwerthfawr ar gyfer ein bywyd gwyllt, ac yn darparu llawer o fuddion eraill gan gynnwys darparu aer glân, cysgod, yn ogystal â sefydlogi'r tir ac amsugno dŵr a llygredd.

Ymgymerwyd â rhaglen o blannu coed yn y gaeaf ers lansio'r Cynllun Coed a Choetiroedd Trefol yn 2018 sy'n pennu targed o 18% o orchudd coed trefol erbyn 2033. Mae ein gwaith plannu wedi parhau rhwng 2022 a 2025. Er nad oes unrhyw gyllideb fewnol ar gyfer plannu coed, mae Adran Mynediad a'r Amgylchedd Naturiol wedi bod yn llwyddiannus yn cael cyllid grant i barhau â rhaglen flynyddol o blannu coed yn y gaeaf.

Ers 2022 yr ydym wedi datblygu proses drylwyr i asesu safleoedd, wedi cychwyn trefn archebu a danfon coed sy'n gweithio ar draws adrannau gan gydweithio â thimau eraill sy'n ymwneud â phlannu coed, yr ydym wedi sefydlu proses plannu coed ar gyfer sefyllfaoedd trefol mwy cymhleth, gan blannu mewn llawr caled trwy ddefnyddio tyllau coed arloesol. Mae gennym raglen fonitro gynhwysfawr ar gyfer yr holl waith plannu newydd, a byddwn yn monitro iechyd ac yn gwneud gwaith sefydlu i gynyddu cyfraddau llwyddiant y coed gymaint â phosibl. Yr ydym hefyd yn cofnodi'r holl waith plannu coed, monitro, y rhywogaethau ac yn cysylltu â chydweithwyr newid hinsawdd i fesur budd o ran carbon.

Er gwaethaf ein cynnydd, yr ydym yn wynebu heriau sylweddol i gynyddu ein gorchudd coed trefol. Mae gennym waith ar y gweill yn ymdrin ag effaith clefyd coed ynn sy'n effeithio ar gyfran fawr o'n coed ynn ac sydd ar led dros y sir. Yr ydym wedi rhoi proses adfer ar waith, gan ailblannu rhywogaethau amgen lle collwyd yr ynn, ond mae colli niferoedd mawrion o goed aeddfed yn hynod niweidiol i fioamrywiaeth.

Yr ydym hefyd yn wynebu heriau cynyddol wrth nodi tirddaliadaethau addas sy'n briodol ar gyfer plannu coed ar raddfa fwy. Er gwaethaf hyn, yr ydym wedi cynyddu niferoedd y coed a blannwn ers y rownd adrodd ddiwethaf, ac mae disgwyl i'r niferoedd gynyddu ymhellach eleni gyda mwy o waith plannu wedi ei gynllunio yn ddiweddarach yn 2025.

Mae prosiectau plannu coed yn cyflawni themâu sydd yn Natganiad Ardal Cyfoeth Naturiol Cymru yn uniongyrchol, gan gynnwys “Datblygu a gwella seilwaith gwyrdd trefol / gwledig” (ac, yn benodol, cynyddu gorchudd coed mewn trefi), a “[Ch]ynyddu’r gorchudd coetir er budd cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd” yng ngogledd-ddwyrain Cymru. Maent hefyd yn rhoi sylw i’r targedau tymor canolig a thymor hwy a nodi yn y Cynllun Adfer Natur, sef “Cynyddu niferoedd coetiroedd llydanddail a chymysg brodorol a choed dan reolaeth ffafriol” a “[Ch]ynyddu coetiroedd llydanddail a chymysg brodorol, brigdwf, cysylltedd a gwytnwch yng Ngogledd Ddwyrain Cymru”, gan gyfrannu tuag at rwydweithiau ecolegol gwydn.

### Mae Amcan 3 Cefnogi Natur yn Sir y Fflint yn datgan:

_Lle dylem fod:_

- *Dylem fod ag ystad Cyngor mwy gwyrdd a mwy bioamrywiol a gaiff ei defnyddio’n dda a’i gwerthfawrogi gan breswylwyr.*
- *Defnyddio technolegau mapio hygyrch ac effeithiol ar gyfer gweithredu, dangos newid ac ymgysylltu â phreswylwyr.*

### Amcan 3: Sylwadau Adroddiad 2025

- Mae’r cynnydd yn ein rheolaeth o’r ystad er mwyn cael amrywiaeth o flodau gwylltion yn gam cadarnhaol ar gyfer bioamrywiaeth leol. Wrth symud ymlaen byddwn yn archwilio’r dulliau gorau o arolygu er mwyn dangos yr effaith y tu hwnt i’n harolygon botanegol, gan ystyried rhywogaethau peillio yn bennaf.
- Mae nodi tir priodol ar gyfer budd bioamrywiaeth wedi dod yn fwy heriol; mae’r gwaith hyd yma wedi bod yn canolbwyntio ar fannau gwyrdd trefol llai. Mae’r gwaith ar ddefnydd tir gyda staff yr hinsawdd a staff ystadau wedi amlygu rhai cyfleoedd bach i weithredu, ond mae mater argaeledd tir yn debygol o fod yn her sylweddol yn y dyfodol. Bydd yn rhaid ystyried y buddion tymor hwy i gadw tir at ddibenion cadwraeth, a phrynu tir o bosibl er mwyn caniatáu’r gweithredu sydd ei angen ar fater yr hinsawdd a bioamrywiaeth.

## Amcan 4 Cynllun Gweithredu Adfer Natur: Mynd i’r afael â phwysau allweddol ar rywogaethau a chynefinoedd

**Cam Gweithredu 16. Parhau i weithio gydag adrannau allweddol i leihau effaith newid hinsawdd**



Mae Cyngor Sir y Fflint wedi cyhoeddi Strategaeth Newid Hinsawdd, sydd i’w gweld yma.

Bu staff bioamrywiaeth ac aelodau o Adran Mynediad a’r Amgylchedd Naturiol yn cymryd rhan lawn yn natblygiad y strategaeth, ac ’rŵan fe’u cynrychiolir ar y gwahanol fforymau swyddogion ar gyfer cyflawni’r cynllun.

Mae targedau bioamrywiaeth yn ymddangos yn aml yn y Strategaeth. Un uchelgais allweddol yn ymwneud â defnydd tir yn y strategaeth yw cynyddu amsugniad carbon a chynnal bioamrywiaeth o fewn ein hasedau tir. Mae’r meysydd gwaith yr ymdrinnir â hwy yn y strategaeth yn cynnwys: Cynyddu’r gyfran o dir y Cyngor a reolir ar gyfer bioamrywiaeth, Cynnal astudiaeth sy’n nodi tir ar gyfer cynlluniau adfer cynefinoedd a phlannu coed o fewn asedau tir i liniaru newid hinsawdd a gwella bioamrywiaeth, Archwilio’r defnydd o chwynladdwyr a phlaladdwyr ar asedau tir y Cyngor, Cynyddu’r gyfran o dir y Cyngor lle torrir y glaswellt yn llai aml, Cefnogi’r cynnydd mewn gorchudd canopi coed ar draws y sir yn unol â’r Cynllun Coed a Choetiroedd Trefol, Asesu effeithiau Clefyd Coed Ynn a phlannu coed yn asedau Sir y Fflint ar orchudd canopi a dal a storio carbon, Cynyddu arwynebedd gyda llai o gyfundrefnau torri gwair i wella bioamrywiaeth a chynyddu storio carbon, Cryfhau’r gwaith o fonitro gosod systemau draenio cynaliadwy (SuDs) mewn datblygiadau newydd.

Fel yr amlinellir yn llawer o’r diweddariadau am gamau gweithredu yn yr adroddiad hwn, mae gwaith yn mynd rhagddo ar draws yr holl feysydd hyn ac mae staff bioamrywiaeth yn cymryd rhan yn y gwaith o gyflawni camau gweithredu yn y strategaeth, a fydd yn cyflawni dros newid hinsawdd a bioamrywiaeth, sydd yn eu hanfod wedi eu cydgysylltu.

Bydd y meysydd gwaith niferus a amlinellir drwy gydol yr adroddiad hwn yn ategu’r Strategaeth Newid Hinsawdd, yn gwneud gwelliannau ac yn cyflawni ar ei chyfer, yn ogystal â dyletswydd Adran 6.

### Cam Gweithredu 17. Hybu a galluogi datblygiad mwy gwyrdd




Mae ein Hecolegydd yn gweithio i alluogi datblygiad mwy gwyrdd ar draws y Cyngor a sicrhau bod rhywogaethau a chynefinoedd pwysig yn cael eu gwarchod. Mae’r Ecolegydd yn ymgynghorai mewnol ar ddatblygiadau a allai effeithio ar fioamrywiaeth leol, ac mae’n gweithio’n agos â’r ymgyngoreion allanol statudol, gan gynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru, i weithredu polisïau cynllunio lleol a chenedlaethol. Ers 2022 cafwyd nifer o ddiweddariadau a diwygiadau i bolisi cynllunio, yn cynnwys polisïau cryfach ar fioamrywiaeth, gwytnwch ecosystemau, coed a choetiroedd, ac isadeiledd gwyrdd. Mae Datganiad Isadeiledd Gwyrdd yn ofynnol bellach gyda phob cais cynllunio. Mae’n rhaid i ddatblygwyr egluro sut mae isadeiledd gwyrdd yn cael ei gynnwys yn y cynnig. Mae Polisi Cynllunio Cymru yn nodi “dull fesul cam” ar gyfer cael budd net i fioamrywiaeth: mae’n rhaid i gynigion ddangos eu bod yn cynnal neu’n gwella bioamrywiaeth, yn hytrach na lliniaru’r difrod yn unig.

Mae gan yr Ecolegydd fethodolegau safonol ar waith ar gyfer rhywogaethau a chynefinoedd gwarchodedig er mwyn sicrhau y defnyddir proses gyson a phriodol i sicrhau cydymffurfiaeth ecolegol.

Ym mis Mawrth 2025 cynhaliwyd Seminar Isadeiledd Gwyrdd Trefol gan Dimau Bioamrywiaeth a Menter ac Adfywio, gydag aelodau o’n Hadran Gynllunio’n bresennol i gynorthwyo gydag amlygu cyfleoedd, astudiaethau achos o arferion gorau, ac uchelgais am ddatblygiad mwy gwyrdd.

Yr ydym yn y broes o ddatblygu canllawiau gwell ar Natur a Chynllunio, a fydd ar gael ar ein gwefan yn ddiweddarach yn 2025.

**Cam Gweithredu 18. Gweithio mewn partneriaeth i gyfyngu effaith rhywogaethau estron goresgynnol ar fioamrywiaeth leol**

Dim Cynnydd | **Rhywfaint o Gynnydd** | Cynnydd Da

Mae effeithiau rhywogaethau estron a rheoli rhywogaethau estron yn faes gwaith sy'n cynyddu.

### Mae Amcan 4 Cefnogi Natur yn Sir y Fflint yn datgan:

<u>*Lle dylem fod:*</u>

- *Mae gweithredu o ran yr hinsawdd yn cael ei arwain, ei gyd-drefnu a'i gefnogi gan grŵp trawsadrannol.*
- *Gwell lefelau o ystyriaeth i natur a chynhwysiant ar draws yr holl ddatblygiadau newydd.*
- *Yr ydym yn ymwneud â gwaith partneriaeth effeithiol i leihau effaith rhywogaethau goresgynnol.*

### Amcan 4: Sylwadau Adroddiad 2025

- Ers 2022 yr ydym wedi parhau i fod â pherthynas waith agos â staff yr hinsawdd a chefnogi'r gwaith o gyflawni'r Strategaeth Newid Hinsawdd. Bydd yn hanfodol i fod â chefnogaeth ac uchelgais eang barhaus, o lefel uchel, i sicrhau bod y strategaeth a'r camau gweithredu cysylltiedig ar fioamrywiaeth yn cael eu gweithredu'n llwyddiannus.

  Er bod gennym bartneriaethau hanesyddol, hirdymor ac effeithiol i reoli Rhywogaethau Estron Goresgynnol, mae hwn yn faes sy'n heriol i'w ariannu. Yr ydym wedi gweithio'n effeithiol trwy gydol y cyfnod adrodd hwn gydag Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru, a oedd â phrosiect wedi ei ariannu; fodd bynnag, mae cyllid a staff yn ansicr ar gyfer y dyfodol a bydd hyn yn effeithio ar y camau gweithredu y gellir eu cymryd mewn perthynas â rhywogaethau goresgynnol yn lleol.

Mae staff bioamrywiaeth yn gweithio mewn partneriaeth ledled yr awdurdod, yn arbennig gyda'r Gwasanaethau Stryd, gwasanaethau Hawliau Tramwy, Tai a Gwasanaethau i Gwsmeriaid, i ddarparu cyngor ac arweiniad ynglŷn â rhywogaethau goresgynnol fel y bo'n briodol. Lle mae rhywogaethau goresgynnol wedi eu canfod ar dir Cyngor Sir y Fflint byddwn yn gweithio gydag adrannau i reoli'r achos yn briodol, a bydd hynny'n aml yn driniaeth hirdymor.

Yr ydym bellach yn mapio rhywogaethau estron goresgynnol a amlygwyd ledled ein hystad, er mwyn cadw cofrestr o safleoedd y gwyddwn amdanynt, y rhywogaethau, a'r rheolaeth sydd ar waith, lle y gwyddwn.

Mae'r rhan fwyaf o waith ychwanegol rheoli rhywogaethau estron goresgynnol yn dibynnu ar gyfranogiad gwirfoddolwyr a digwyddiadau. Drwy gydweithio ag Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru byddwn yn cynnal digwyddiadau rheoli Jac y Neidiwr gyda gwirfoddolwyr.

## Amcan 5 Cynllun Gweithredu Adfer Natur: Gwella ein tystiolaeth, dealltwriaeth a monitro

**Cam Gweithredu 19. Monitro a gwerthuso camau gweithredu**

Dim Cynnydd | Rhywfaint o Gynnydd | Cynnydd Da

Mae'r gweithredu hyd yma wedi ei gofnodi trwy broses adrodd fewnol ar gynllun ac adroddiadau cyllid grant.

Yr ydym hefyd yn monitro bioamrywiaeth ar y tir. Mae Cyngor Sir y Fflint yn rhan o raglen fonitro Madfallod Dŵr Cribog gogledd-ddwyrain Cymru, sy'n monitro 104 o byllau am eu poblogaethau o'r fadfall

### Mae Amcan 5 Cefnogi Natur yn Sir y Fflint yn datgan:

_Lle dylem fod:_

- *Bydd gennym blatfform lle gallwn rannu data amgylcheddol priodol ar draws y Bartneriaeth Natur Ranbarthol.*
- *Byddwn yn gallu dangos tystiolaeth o newid a deall beth yw'r cam gweithredu gorau a lle a phryd i fynd i'r afael â'r cam hwnnw i ganolbwyntio'r adnoddau sydd gennym.*
- *Byddwn yn defnyddio cynllun gweithredu adfer natur gofodol ar gyfer gweithredu.*

### Amcan 5: Sylwadau Adroddiad 2025

- Mae darpariaeth mapio cynefinoedd ar wefan y Bartneriaeth Natur Leol / Bionet, sydd o gymorth i roi darlun rhanbarthol o gynefinoedd pwysig a'r camau gweithredu a gymerir. Cafwyd heriau wrth gael a chynnwys data gan sefydliadau partner, ac mae hyn yn rhywbeth a fyddai'n fuddiol ei ddatblygu wrth symud ymlaen.
- Mae cynnydd yng nghapasiti Tîm Bioamrywiaeth Sir y Fflint wedi caniatáu mwy o werthuso a monitro ar y prosiect. Yr ydym bellach yn monitro'r asedau a grëwyd, yn arbennig safleoedd blodau gwylltion a'r coed a blannwyd, ond yr ydym hefyd yn monitro ein gwaith yn ôl dangosyddion perfformiad allweddol ac mae'r capasiti gennym i werthuso llwyddiant prosiectau a'r hyn a ddysgwyd ohonynt, gan gwblhau astudiaethau achos prosiectau ac adroddiadau prosiectau, sy'n amhrisiadwy i arwain meysydd gwaith yn y dyfodol.
- Yn fwy diweddar yr ydym wedi gallu dechrau gwaith monitro ffotograffig arloesol gan ddefnyddio drôn. Yr ydym wrth ein boddau o gael defnyddio hyn i ddangos effaith prosiectau a newid cynefinoedd dros dymhorau ac amser.

ddŵr gribog yn flynyddol, gan weithio mewn partneriaeth ag Ymddiriedolaeth Cadwraeth Amffibiaid ac Ymlusgiaid a Chyfoeth Naturiol Cymru. Mae yna angen cynyddol i gynnwys goblygiadau sy'n gysylltiedig ag amrywiadau yn y tywydd wrth fonitro. Archwilir hyn yn ein cynllun sydd ar droed.

Ers 2022 yr ydym wedi parhau i ddatblygu ein defnydd o blatfformau mapio a dangosyddion perfformiad allweddol i fonitro a gwerthuso camau gweithredu.

Mae yna ofyniad hefyd i adrodd ar gamau gweithredu yng Nghynllun y Cyngor drwy'r system fewnol InPhase a thrwy grwpiau'r Strategaeth Newid Hinsawdd.

## Amcan 6 Cynllun Gweithredu Adfer Natur: Cyflwyno fframwaith llywodraethu a chefnogaeth ar gyfer cyflawni

### Cam Gweithredu 20. Sicrhau capasiti ac adnoddau digonol i gydymffurfio â'r ddyletswydd




Ers 2022 mae cyllid grant blynyddol wedi darparu capasiti ar gyfer cydymffurfio â dyletswydd Adran 6. Er nad yw hyn yn ddatrysiad hirdymor, mae'n darparu strwythur byrdymor ar gyfer cyflawni ymrwymiadau'n effeithiol yn Sir y Fflint.

Ers 2022 mae cyllid grant Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid refeniw ychwanegol i ariannu tri aelod o staff bioamrywiaeth ar gontractau dros dro, byrdymor. Rôl allweddol y swyddi hyn yw cyflawni prosiectau natur lleol dan gynllun ariannu Lleoedd Lleol ar gyfer Natur, sy'n canolbwyntio ar wella gwerth bioamrywiaeth ein parth cyhoeddus, ond mae'r cynllun staffio wedi darparu capasiti sylweddol ar gyfer cyflawni ein dyletswydd statudol a galluogi gweithredu rhagweithiol dros natur yn lleol, gan asesu a datblygu prosiectau allweddol i'r ystad, cynnal arolygon a monitro, rhoi cyhoeddusrwydd a hyrwyddo a chynnal digwyddiadau. Yr ydym wedi cael budd hefyd o ychwanegiad Prentis Bioamrywiaeth a fydd yn parhau tan fis Medi 2026.

Mae refeniw grant hefyd yn cyfannu tuag at Swyddog Prosiect Partneriaeth Natur Leol sy'n gallu arwain y cydweithio ar gadwraeth yn rhanbarthol a chydlyniant y Bartneriaeth Natur Leol.

Er bod y cynnydd mewn capasiti yn bendant wedi bod yn gadarnhaol a hanfodol i gyflawni ein dyletswydd statudol, mae yna risg sylweddol o ddibynnu ar gyllid grant i ddarparu digon o gapasiti ar fioamrywiaeth, a gallai fod yna lawer o heriau yn gysylltiedig â threfniadau staffio dros dro byrdymor.

### Mae Amcan 6 Cefnogi Natur yn Sir y Fflint yn datgan:

Lle dylem fod:

- *Meddu ar rwydwaith lleol a rhanbarthol cryf ac effeithiol lle mae'r cyfathrebu gyda fforymau cenedlaethol yn effeithiol ac wedi ei gydgysylltu'n dda.*
- *Mae angen strwythur lleol arnom sy'n effeithiol, sefydlog ac yn cefnogi ein hymrwymiad i weithredu parhaus i atal colli byd natur ac sy'n creu gweithle lle mae ystyriaeth amgylcheddol a datrysiadau yn seiliedig ar natur yn ganolog.*

### Amcan 6: Sylwadau Adroddiad 2025

- Er ein bod wedi recriwtio tri aelod ychwanegol o staff bioamrywiaeth yn llwyddiannus a bod gennym Brentis Bioamrywiaeth dros dro, mae'r swyddi hyn wedi eu hariannu gan grantiau neu maent yn swyddi cyfnod penodol, byrdymor.
- Mae recriwtio partneriaeth natur ranbarthol wedi bod o gymorth mawr i gydlyniant parhaus y Bartneriaeth Natur Leol / Bionet. Ariennir y swydd ar hyn o bryd gan gyllid grant awdurdodau lleol cyfunol. Gobeithir y bydd y cydweithio rhanbarthol hwn yn parhau.

## Adolygu Dyletswydd Adran 6

Mae cynllun Adran 6 Cyngor Sir y Fflint wedi ei ddiweddaru a'i adolygu ochr yn ochr â'r adroddiad hwn. Cyhoeddir ein Cynllun Adran 6 diwygiedig yn dilyn adroddiad 2025 a chymeradwyaeth ffurfiol gan Gyngor Sir y Fflint.